**Cofnodion Bwrdd TrC**

**16 Mawrth 2023**

09:30 – 17:00

Lleoliad – Llys Cadwyn

---

**Yn bresennol**
Scott Waddington (Cadeirydd), Alun Bowen, Heather Clash, Nicola Kemmery, Vernon Everitt, Alison Noon-Jones, Sarah Howells a James Price.

Hefyd yn bresennol: Jeremy Morgan; Natalie Feely (eitemau 1 i 3); a Leyton Powell (eitem 2).

**<u>Rhan A – Cyfarfod o'r Bwrdd Llawn</u>**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Natalie Feely, a oedd wedi cael ei henwebu fel arsylwr Undeb Llafur gan TUC.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiannau**
Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 16 Chwefror 2023 yn gofnod gwir a chywir.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**
Wrth nesáu at y gwanwyn, mae rhagor o bobl allan ac mae TrC yn wynebu risg uwch o dresmasu.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**
Mae peidio â chael cyfleusterau ar gyfer storio beiciau, fel ar gyfer cyfarfodydd, yn dod yn rhwystr i deithio llesol. Mae angen edrych ar ffyrdd o annog busnesau a siopau i roi cyfleusterau ar waith i storio beiciau os ydym yn annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio llesol.

**2. Perfformiad diogelwch**
Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Roedd rhywun wedi ceisio dwyn ceblau ar y rhwydwaith, a oedd wedi effeithio ar weithrediadau a niweidio tanc tanwydd gwasanaeth i deithwyr. Mae adolygiad diogelwch yn mynd rhagddo.

[redacted]

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu Cynlluniau Argyfwng gan gynnwys ar y posibilrwydd o golli ynni ac adolygiad gan y Tîm Gofalu am Ddigwyddiadau.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau thermol y dosbarth 175 yn ddiweddar, a chael gwybod na chafodd unrhyw un niwed. Mae'r achos sylfaenol wedi cael ei nodi fel malurion, fel dail sych, yn cronni mewn rhan o fae'r injan yn agos i'r system wacáu. O ganlyniad i'r digwyddiadau cychwynnol, cyflwynwyd trefn lanhau fwy rheolaidd a manwl. Mae'n ymddangos mai gwaith cynnal a chadw'r cyflenwr oedd ar fai yn hyn o beth. Mae cyfarfod wedi'i drefnu â Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd gyda'r posibilrwydd o gyflwyno hysbysiad diogelwch. Pwysleisiodd y Bwrdd ei bryder ynghylch y materion cynnal a chadw tebygol a arweiniodd at y digwyddiadau thermol. Cytunwyd bod angen dysgu gwersi a'u lledaenu i'r rhanddeiliaid perthnasol **[Cam Gweithredu Leyton Powell]**.

Roedd tri SPaD yng Nghyfnod Rheilffyrdd 11, un yn uwch na'r ffigur a ragwelwyd. Cymerwyd camau priodol.

Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

**3. Diweddariad strategol**

**3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

[redacted]

Mae'r cynnydd o ran hybu'r agenda bysiau yn parhau gyda ffocws penodol ar sicrhau bod TrC yn barod i gefnogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n symud tuag at fasnachfreinio. Mae hyn wedi cynnwys cytuno ar strwythur llywodraethu bysiau lefel uchel newydd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sgyrsiau parhaus a chydweithio gyda llywodraeth leol. Mae trefniadau mewnol hefyd yn cael eu gwneud i gryfhau sefyllfa TrC ymhellach.

Trafododd y Bwrdd yr her a'r cyfle o adeiladu rhwydwaith aml-ddull. Hysbyswyd y Bwrdd y bydd hyn yn gofyn am ddatblygu'r model gweithredu ymhellach ond heb yr angen am unrhyw newidiadau strwythurol sylweddol pellach, gan ganolbwyntio ar brosesau a chydweithio.

Mae perfformiad Rheilffyrdd wedi parhau i fod yn destun sylw parhaus gan y tîm rheoli, gan gynnwys ar y lefel uchaf ym Mwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf. Roedd y dangosfwrdd perfformiad yn dangos perfformiad cymysg ar gyfer Cyfnod Rheilffyrdd 11, yn bennaf oherwydd anawsterau o ran cael gafael ar nifer y trenau sydd eu hangen oherwydd newidiadau i'r fflyd. Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn arbennig o heriol oherwydd digwyddiadau thermol y dosbarth 175.

Adolygodd y Bwrdd wariant y Gronfa Teithio Llesol. Yn ystod y mis diwethaf, mae llawer iawn o waith wedi'i wneud o ran gwella'r busnes fel arfer i geisio sicrhau bod cymaint o ddyraniad y grantiau teithio llesol eleni i awdurdodau lleol yn cael ei wario, ond hefyd o ran cynlluniau i wella ansawdd a chyrhaeddiad cynlluniau yn y dyfodol. Cytunodd y Bwrdd y dylid comisiynu adroddiad ar y cyd rhwng TrC a Llywodraeth Cymru ar sut i reoli'r gronfa yn y dyfodol **[Cam Gweithredu Geoff Ogden]**.

Trafododd y Bwrdd y cyfyngiad sydd ar waith yn Nhreherbert oherwydd y gwaith Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd sy'n mynd rhagddo. Gofynnodd y Bwrdd a fyddai modd defnyddio gair ar wahân i 'blockade' yn Saesneg, gan fod hynny'n gallu dod ar draws yn negyddol iawn.

Aeth y prosiect Un Denantiaeth yn fyw ar benwythnos 4/5 Mawrth. Hysbyswyd y Bwrdd, er y bu cynllunio a gweithredu gofalus a bod y tîm wedi gweithio'n ddiwyd i'w gyflawni, y bu nifer o broblemau i'w datrys. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r problemau wedi'u datrys erbyn hyn, sy'n golygu y gall pobl ddechrau rhannu gwybodaeth yn haws ar draws y busnes a chyfathrebu'n fwy synhwyrol.

Adolygodd y Bwrdd ffigurau teithio heb docyn a gofynnodd a fyddai'n bosibl dod â phapur ar fynd i'r afael ag osgoi talu am docyn i gyfarfod yn y dyfodol. **[Cam Gweithredu AC]**.

### 3b. Cyllid a llywodraethu

Mae ffocws sylweddol wedi bod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys sicrhau'r atodiad i lythyr cyllido gwreiddiol 2022/23 Llywodraeth Cymru, gan sicrhau gwariant cyfalaf a rheoli unrhyw danwariant posibl yn y Gronfa Teithio Llesol.

Hefyd cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ymddiogelu tanwydd, gwaith y Pwyllgor Buddsoddi, datblygu'r Amgylchedd Rheoli Uwch a Chynllun Busnes TrC y mae Llywodraeth Cymru yn ei adolygu.

[redacted]

### 4. Is-bwyllgorau

Roedd cyfarfod diweddar y Pwyllgor Profiad Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn canolbwyntio ar nifer o ddiweddariadau o bob rhan o'r portffolio, gan gynnwys delio â chwynion, materion yn ymwneud â gwasanaethau yn lle trenau, a defnyddio adnoddau i systemu rhywfaint o'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Roedd y Pwyllgor wedi nodi newid sylweddol o ran cyflawni.

Hysbyswyd y Bwrdd y bydd y Pwyllgor Prosiectau Mawr yn adolygu ei gylch gorchwyl. Ystyriodd y cyfarfod diweddar grynodeb o'r holl gynlluniau Metro rhanbarthol, cynllun yr A465, trawsnewid bysiau, Llinellau Craidd y Cymoedd, gwelliannau Caerdydd Canolog, Crossrail Caerdydd, Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd, a Chomisiwn Burns gan gynnwys Prif Linell De Cymru.

**5. Byrddau is-gwmnïau**

Roedd cyfarfod diweddar Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf wedi ystyried perfformiad, dibynadwyedd, lleihau nifer y bobl sy'n canslo, cynllunio ar gyfer y dyfodol, masnach, cyllid, cyflogau a [redacted] a gwybodaeth am gwsmeriaid.

Roedd cyfarfod Bwrdd Pullman y mis diwethaf wedi canolbwyntio ar ddiogelwch, cyllid, a gweledigaeth/strategaeth y cwmni.

**6. Y Bwrdd Llywio**

Roedd cyfarfod diweddar Bwrdd Llywio TrC wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyllideb TrC.

**7. Effeithiolrwydd y Bwrdd**

Nododd y Bwrdd gynlluniau ar gyfer adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a Chynllun Datblygu'r Bwrdd.

**8. Cyfrinachol**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf o ran cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar y Bwrdd.

**<u>Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol</u>**

Ymunodd Dan Tipper â'r cyfarfod.

**7. Cynllun Busnes**

Ymunodd Zoe Smith-Doe â'r cyfarfod. Mae'r adborth cychwynnol gan Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Busnes drafft ar gyfer 2023/24 wedi bod yn gadarnhaol.

Gadawodd Zoe Smith-Doe y cyfarfod.

**8. Cyllideb 2023/24**

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar fersiwn wedi'i ddiweddaru o gyllideb 2023/24. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar fwlch cyllido gwasanaethau rheilffyrdd a thrafodaethau â Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i ddatrysiad, gan gynnwys ymdrechion i gynyddu a sicrhau atebolrwydd ar gyfer cynyddu refeniw.

**9. Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys cynllun wedi'i ail-lunio ar gyfer comisiynu TAM A; y cyfyngiad yn Nhreherbert; cynlluniau ar gyfer comisiynu'r Ganolfan Reoli Integredig yn Ffynnon Taf; daearu a bondio; signalau; trydaneiddio llinellau uwchben; dylunio a dechrau defnyddio.

Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod.

**10. Diweddariad Teithio Llesol**

Ymunodd Matthew Gilbert â'r cyfarfod. Mae'r rhagamcanion alldro diweddaraf yn awgrymu tanwariant o rhwng £762,000 a £4.3m yn y Gronfa Teithio Llesol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo opsiynau gwariant eraill gwerth £8.5m fel mesurau lliniaru tanwariant, gan gynnwys £1.7m sydd eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer y prosiect dosbarth 153.

Gadawodd Matthew Gilbert y cyfarfod.

**11. Cofrestr Risg**

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am fân newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol. Nododd y Bwrdd, fel rhan o'r gwaith o hybu diwylliant sy'n ymwybodol o risg ar draws y sefydliad, y bydd y tîm Rheoli Risg yn darparu hyfforddiant staff dros y misoedd nesaf sy'n cynnwys hyfforddiant Rheoli Risg rhagarweiniol 90 munud a hyfforddiant rheoli risg uwch ar gyfer perchnogion risg.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad risgiau.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau.